18.08.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

Erthygl i'r Wasg **Press Release**

Mae Gwyneth yn ôl yn y Cwm - a dial sydd ar ei meddwl!

Mae sawl dihiryn wedi bod yng Nghwmderi dros y blynyddoedd yn corddi'r dyfroedd ac yn achosi problemau di-ri i drigolion y Cwm - ac un o'r rhai mwyaf brawychus yw Gwyneth Jones.

Mae Gwyneth, syn cael ei chwarae gan yr actores Llinor ap Gwynedd ar **Pobol y Cwm**, wedi bod i ffwrdd o Gwmderi am gyfnod yn y carchar am ddelio cyffuriau - a chafodd hi ei fframio am lofruddiaeth gan gang cyffuriau o dan arweinyddiaeth Dylan Elis.

Nawr mae Gwyneth yn ôl ac mae hi'n grac - hynod o grac - ac mae rhywun yn mynd i dalu am beth wnaethon nhw.

Meddai Llinor: "Mae Gwyneth wedi dod nôl i'r pentre' er mwyn dial ar Dylan achos mae hi'n gwybod taw Dylan wnaeth ei fframo hi am y llofruddiaeth 'ma. Mae Gwyneth wedi bod yn pydru yn y jail am ddwy flynedd a ffili meddwl am ddim byd ond dial.

"Wedyn mae hi'n dod nôl ac yn cymryd Jaclyn yn gaeth. Mae Jaclyn yn cyfadde' ei bod hi'n gwbod beth odd Dylan wedi neud ac yn yr eiliad yna mae Gwyneth yn ymosod ar Jaclyn."

A dyna ddiwedd ar Jaclyn.

"Nid hynna oedd y bwriad ond yn yr eiliad yna mae'n gweld y '*red mist*'. Ac wedi hynny mae hi'n difaru ac mae hi hefyd yn ffeindio mas bod Jaclyn yn feichiog. Ac mae hynny wedi peri cymaint o boen meddwl i Gwyneth oherwydd doedd hi ddim wedi bwriadu gwneud hynny, sicr ddim eisiau lladd babi, ond mae dal ganddi'r casineb pur 'ma yn erbyn Dylan."

Mae Llinor yn mwynhau chwarae Gwyneth - ac mae hi'n ei gweld hi fel cymeriad cymhleth ac aml-haenog.

"Yn fy mhen i, does neb yn gant y cant da a neb yn gant y cant drwg. Hynny yw - mae 'na *dimensions* yn perthyn i bob un unigolyn. Mae ychydig bach o dda a drwg ynddo ni i gyd, dwi'n credu. Jysd bod Gwyneth yn mynd i'r pigyrnau hollol eithafol 'ma.

"Mae hi'n fam llawn cariad i Gwern. Ac wedyn mae hi'n gwneud camgymeriadau sy'n rhoi'r berthynas yna mewn sefyllfa anodd. Y peth gyda Gwyneth yw ei bod hi'n anghyson iawn achos bod hi mor fyrbwyll. Ac mae hynny'n mynd â hi i begynau hollol eithafol wedyn.

"Mae hi'n ddiawl i'w hunan. Yr eironi am sefyllfa Gwyneth yw - mae hi wedi chwerwi yn y carchar oherwydd dyw hi ddim wedi cael bod gyda'i mab ond, yn ei phen hi, yr ateb i hynny yw lladd y person sydd wedi rhoi hi yn y jail. Dyw hynny dim yn neud unrhyw sens nadi?

“Achos beth mae hi’n neud yw rhoi ei hunan yn y sefyllfa lle mae hi’n gallu rhoi ei hunan yn y jail am byth. Dyw hyn ddim yn gwneud unrhyw synnwyr i rywun rhesymol ond achos bod Gwyneth wedi chwerwi gymaint dyw hi ddim yn gweld ei bod hi’n hollol afresymol yn y sefyllfa ‘ma.”

Mae Llinor wedi chwarae rhan Gwyneth yn **Pobol y Cwm** ers 19 mlynedd ac mae’n cofio ei golygfa gyntaf a bod ar leoliad gydag Emyr Wyn, Gwyn Elfyn a Huw Ceredig.

“Digwydd bod oni’n nabod y tri beth bynnag felly doedd e ddim mor *daunting* a galle fe wedi bod. Ac roedd y tri yn hollol groesawgar.”

Mae Llinor wrth ei bodd i fod nôl yn **Pobol y Cwm**. Meddai Llinor: “‘Watch this space’ yw hi - gwaethygu mae pethau’n mynd i wneud. Mae Dylan dal o gwmpas ac mae hyn yn mynd i achosi problemau mawr dwi’n credu.”

Dilynwch hanes Gwyneth a gweddill cymeriadau Cwmderi yn **Pobol y Cwm** bob wythnos ar S4C.

Pobol y Cwm
Pob Nos Fawrth, Mercher, Iau 8.00, S4C
Isdeitlau Saesneg
Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill
Cynhyrchiad BBC Cymru ar gyfer S4C

18.08.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

Erthygl i'r Wasg **Press Release**

Gwyneth's back – and she's out for revenge!

There have been several baddies in Cwmderi over the years causing trouble and making life difficult for the residents of the Cwm – and one of the scariest of them all is Gwyneth Jones.

Gwyneth, who is played by the actor Llinor ap Gwynedd in **Pobol y Cwm**, has been away from Cwmderi for a spell in jail for dealing drugs – and she was framed for murder by the drugs gang led by Dylan Elis.

Now Gwyneth is back and she's angry - really angry – and someone is going to pay for what they did to her.

Llinor said: "Gwyneth has come back to the village to take her revenge on Dylan because she knows that it was Dylan who framed her for this murder. Gwyneth has been rotting in jail for two years and she can't think of anything apart from getting her revenge on Dylan.

"Then she comes back and takes Jaclyn hostage. Jaclyn admits that she knew what Dylan had done and in that second, Gwyneth attacks Jaclyn."

And that's the end of Jaclyn.

"This wasn't her intention but in that moment the 'red mist' descended. And she regrets what's happened and she also finds out that Jaclyn was pregnant. And this has caused Gwyneth to feel really bad because she didn't mean to do this, she certainly didn't want to kill the baby, but she still has this pure hate towards Dylan."

Llinor enjoys playing Gwyneth – and sees her as a complicated and multi-faceted character.

"In my head, nobody is 100 per cent bad or 100 per cent good. Every individual has different dimensions. There's a bit of bad in us all, I think. It's just that Gwyneth goes to extremes.

"She's a loving mother to Gwern. Then she goes and makes mistakes which put that relationship in a difficult place. The thing with Gwyneth is that she is very inconsistent because she is so impulsive and this makes her go to extremes."

"She's her own worst enemy. The irony of Gwyneth's situation is, she has become embittered while in jail because she can't be with her son, but in her head, the answer to this is to kill the person who has put her in jail. This doesn't make any sense, does it?

“Because what she’s doing is putting herself in a position whereby she could end up in jail for ever. This doesn’t make any sense to a reasonable person but because Gwyneth has become so embittered, she doesn’t see that she’s being completely unreasonable in this situation.”

Llinor has played the part of Gwyneth in **Pobol y Cwm** for 19 years and remembers her first scene being on location with Emyr Wyn, Gwyn Elfyn and Huw Ceredig.

“As it turns out, I knew the three of them so it wasn’t as daunting as it sounds. And all three were really welcoming,” said Llinor.

Llinor is delighted to be back in **Pobol y Cwm**. She said: “So it’s a case of ‘watch this space’ – things are going to get a lot worse. Dylan is still about the place and this is going to cause serious problems, I think.”

Follow Gwyneth’s story and all the other Cwmderi characters in **Pobol y Cwm** every week on S4C.

Pobol y Cwm
Every Tuesday, Wednesday, Thursday evening 8.00, S4C
English subtitles available
On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms
A BBC Cymru production for S4C